OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1609

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

## RHAN 1

### Cyflwyniad, adolygu a dod i ben

**Enwi, cymhwyso a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio Rhan 6, i rym ar 21 Rhagfyr 2020.

(4) Daw Rhan 6 i rym ar 23 Rhagfyr 2020.

**Adolygu**

**2.** Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn, a pha un a yw'r cyfyngiadau a'r gofynion hynny yn gymesur â'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ceisio ei gyflawni drwyddynt—

(a) erbyn 7 Ionawr 2021;

(b) o leiaf unwaith yn y cyfnod rhwng 8 Ionawr 2021 a 28 Ionawr 2021;

(c) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 21 o ddiwrnodau.

**Dod i ben**

**3.** Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y dydd ar 31 Mawrth 2021.